Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# Taliadau Uniongyrchol

## Crynodeb o Ran 4 o'r Cod Ymarfer



All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan

## Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.
Rhennir Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn 11 adran. Mae gan bob adran God Ymarfer. Mae pob Cod Ymarfer yn amlinellu beth ddylai pob awdurdod lleol ei wneud a beth na ddylen nhw ei wneud o ran eu dyletswydd i gefnogi lles Dinasyddion Cymru.

Mae'r daflen hon yn cynnig crynodeb o ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gellir dod o hyd i'r cod ymarfer llawn rhan 4 sy'n ymdrin â 'diwallu anghenion' yma;
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/part-4-code-of-practice-meeting-needs.pdf

## Beth yw Taliad Uniongyrchol?

Mae Taliadau Uniongyrchol yn arian gan y cyngor i helpu unigolion a'u gofalwyr i drefnu a thalu am gefnogaeth i ddiwallu anghenion a aseswyd a chanlyniadau lles y cytunwyd arnynt.

Gellir defnyddio taliad uniongyrchol i dalu am bethau megis;

- Gofal personol
- Cefnogaeth i fyw bywyd llawn ac egnïol o'ch dewis
- Cefnogaeth i Ofalwyr di-dâl
- Offer, nwyddau a gwasanaethau
- Cefnogaeth i greu datrysiadau mwy hyblyg a chreadigol

## Pwy all gael Taliad Uniongyrchol?

Gall bron pawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gael Taliad Uniongyrchol.
I gael Taliad Uniongyrchol, rhaid i unigolyn allu dangos y gall reoli'r arian yn y ffordd gywir. Gallan nhw wneud hyn ar eu pen eu hunain neu gyda chymorth.

# Egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael ei llywodraethu gan nifer o egwyddorion.

Y rhain yw;

**Llais a rheolaeth -**

rhoi'r unigolyn a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais (a rheolaeth) iddynt gyrraedd y deilliannau sy'n eu cynorthwyo i gyflawni lles personol.

**Atal ac ymyrraeth gynnar -**

cynyddu atebion ataliol o fewn y gymuned i helpu i atal pobl rhag wynebu argyfwng.

**Lles -**

cefnogi pobl i gyflawni eu lles eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chefnogaeth.

**Cyd-gynhyrchu -**

annog unigolion i gymryd mwy o ran wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn golygu bod Awdurdodau Lleol yn gweithio mewn partneriaeth gyfartal gyda phobl sy'n dibynnu ar gymorth gofal cymdeithasol.

# Pwerau Awdurdodau Lleol i ddarparu Taliadau Uniongyrchol

Dan y Ddeddf, mae gan awdurdodau lleol bwerau i ddarparu Taliadau Uniongyrchol dan:

- adran 50 - diwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn
- adran 51 - diwallu anghenion gofal a chymorth plentyn
- adran 52 - diwallu anghenion gofal a chymorth gofalwr.

Gweler ein taflen ar gymhwysedd ar gyfer gofal a chymorth gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol

# Cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol dan y Ddeddf

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod Taliadau Uniongyrchol yn ffordd bwysig o alluogi i bobl ymarfer dewis, llais a rheolaeth. Dylai pobl allu dewis sut i ddiwallu eu hanghenion gofal eu hunain, a chefnogi a chyflawni eu canlyniadau personol eu hunain.

Gall Taliadau Uniongyrchol ddisodli gofal a chymorth a ddarperir yn uniongyrchol neu a gomisiynir gan Awdurdod Lleol. Gellir eu defnyddio ar gyfer diwallu holl

anghenion gofal a chymorth unigolyn, neu ran ohonynt. Gall unigolyn gael cymysgedd o Daliadau Uniongyrchol a gwasanaethau gofal a chymorth wedi'u trefnu.

## Egwyddorion Cyffredinol Rhan 4 y Ddeddf

Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud bod unigolyn yn gymwys i gael gofal a chymorth i gyflawni ei ganlyniadau, rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried y pethau canlynol;

Pan fo unigolyn cymwys neu ei gynrychiolydd yn gofyn am Daliad Uniongyrchol, rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod yr opsiwn hwn ar gael ym mhob achos.
Ni ddylid gwrthod Taliadau Uniongyrchol oni bai y daw'n amlwg ar ôl archwiliad manwl na fyddai Taliad Uniongyrchol yn sicrhau'r canlyniadau gofynnol. Dylid egluro'r penderfyniad hwnnw'n glir i'r unigolyn neu ei gynrychiolwyr.

- Mae'n **rhaid** i Awdurdod Lleol fod yn arloesol a chreadigol wrth weithio mewn partneriaeth â phobl neu eu cynrychiolwyr i archwilio ffyrdd o ddefnyddio Taliad Uniongyrchol i sicrhau'r canlyniadau personol.
- Mae'n **rhaid** i Awdurdodau Lleol hyrwyddo hunanreolaeth a cheisio gwella annibyniaeth unigolion drwy alluogi i bobl wneud cyfraniad gweithredol at y broses o lywio eu gofal a'u cymorth.
- Mae'n **rhaid** i Awdurdod Lleol annog a chefnogi pobl i bennu eu canlyniadau personol eu hunain, yn ogystal â'r gofal a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i gyflawni'r canlyniadau hyn. Dylid ystyried rhwydweithiau cefnogi presennol yr unigolyn.
- Mae'n **rhaid** i'r Awdurdod Lleol annog pobl i ddod o hyd i ffyrdd creadigol, hyblyg ac arloesol i gyflawni eu canlyniadau personol.
- **Ni ddylid** gwrthod Taliad Uniongyrchol i unigolion am na allant reoli'r Taliad Uniongyrchol, neu am eu bod yn poeni am reoli'r taliad.
- Os na fydd oedolyn yn gallu rheoli Taliad Uniongyrchol neu os ydynt yn dewis peidio â rheoli'r taliad eu hunan, gall y Taliad Uniongyrchol gael ei dalu i, a'i reoli gan, rywun sy'n gweithredu ar eu rhan.

  Gall 'Unigolyn Addas' gael ei benodi gan Awdurdod Lleol i dderbyn a rheoli'r Taliadau Uniongyrchol ar ran yr unigolyn nad ydynt yn gallu derbyn taliad uniongyrchol eu hunain.
- Wrth drafod sut y gall anghenion gael eu diwallu trwy Daliadau

Uniongyrchol, mae'n **rhaid** i Awdurdod Lleol fod yn barod i fod yn agored i syniadau newydd a bod mor hyblyg â phosibl.

- Mae'n **rhaid** i bobl gael eu hannog i archwilio ffyrdd arloesol a chreadigol i nodi'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gyflawni canlyniadau mewn ffordd sy'n cyfateb i'w dewisiadau personol.

- Mae'n **rhaid** i Awdurdod Lleol roi'r gorau i wneud Taliad Uniongyrchol os yw'n fodlon nad yw anghenion gofal a chymorth, neu ganlyniadau personol yr unigolyn yn cael eu diwallu, ac os nad oes modd diwygio darpariaeth y Taliad Uniongyrchol i wneud hynny.

## Cymorth

- Mae'n rhaid i Awdurdod Lleol ddarparu gwybodaeth a chymorth hygyrch a phriodol i alluogi i bobl benderfynu a ydynt am gael Taliadau Uniongyrchol.
- Mae'n rhaid i Awdurdod Lleol ddatblygu gwasanaethau cymorth lleol ar gyfer y derbynwyr Taliad Uniongyrchol sy'n gallu darparu'r cymorth sydd ei angen ar dderbynnydd i reoli Taliad Uniongyrchol yn effeithiol.
- Lle nodir anawsterau, rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod y lefel gywir o gymorth ar gael i oresgyn hyn.
- Mae'n rhaid i Awdurdod Lleol, mewn partneriaeth â'r unigolyn, archwilio'r holl opsiynau ar gyfer cefnogi'r unigolyn i reoli ei Daliadau Uniongyrchol; gall hyn gynnwys cymorth yn y tymor byr i helpu'r unigolyn i ymgyfarwyddo, neu gymorth yn y tymor canolig neu hir.

## Cyflogi Cynorthwywyr Personol

**Un ffordd o ddefnyddio Taliad Uniongyrchol yw cyflogi cynorthwywyr personol.**

**Rhaid** i Awdurdod Lleol sicrhau bod derbynyddion Taliad Uniongyrchol a'u cynrychiolwyr yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol fel cyflogwr. Mae'n rhaid i dderbynwyr neu eu cynrychiolwyr dderbyn y cymorth a'r adnoddau angenrheidiol i reoli eu cyfrifoldebau cyflogaeth.

Wrth hyrwyddo canlyniadau personol unigolyn, **gall** Awdurdod Lleol awdurdodi

Taliadau Uniongyrchol i dalu perthynas sy'n byw ar yr un aelwyd â'r derbynnydd os yw'n darparu gofal a chymorth neu'n rheoli Taliadau Uniongyrchol y derbynnydd. Wrth ystyried a fydd cyflogi'r perthynas yn darparu'r canlyniad llesiant gorau i'r unigolyn hwnnw, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol ystyried barn y derbynnydd cyn dod i benderfyniad.

Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol, ar ôl ystyried barn y derbynnydd,

fod yn fodlon mai cyflogi perthynas agos sy'n byw yn yr un aelwyd yw'r ffordd orau o hyrwyddo a chyflawni ei ganlyniadau personol.

Mae'n **rhaid** i Awdurdodau Lleol sicrhau bod eu polisïau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd,

mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol, yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau diogelu cyfredol.

# Gwybodaeth Ariannol

- Mae'n **rhaid** i Awdurdod Lleol sicrhau bod gwerth Taliad Uniongyrchol a wneir yn cyfateb i'r gost resymol o sicrhau'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen, yn amodol ar unrhyw gyfraniad ariannol wedi'i asesu y mae'n ofynnol i'r derbynnydd ei wneud.
- Mae'n **rhaid** i Awdurdodau Lleol sicrhau bod eu trefniadau monitro ariannol ar gyfer Taliadau Uniongyrchol yn gymesur. Mae'n rhaid i adroddiadau a gwblheir gan dderbynnydd Taliadau Uniongyrchol neu ei gynrychiolydd fod yn hawdd eu defnyddio, ac ni ddylent fod yn rhy feichus.
- Mae'n **rhaid** i awdurdod lleol asesu pryd mae'n briodol iddo wneud cais am ad-daliad fesul achos, yn seiliedig ar yr amgylchiadau penodol. Mae'n **rhaid** iddo beidio â gweithredu polisi cyffredinol nad yw'n ystyried yr amgylchiadau penodol. Dim ond arian sydd wedi'i ddargyfeirio o'r diben y'i bwriadwyd, neu sydd heb ei wario o gwbl, y dylai Awdurdodau Lleol geisio ei adennill.
- Mae'n **rhaid** i dderbynwyr Taliad Uniongyrchol, neu eu cynrychiolwyr, allu newid cyfanswm y Taliad Uniongyrchol y maent yn ei ddefnyddio o wythnos i wythnos. Mae'n **rhaid** iddynt allu 'bancio' unrhyw daliad heb ei wario i'w ddefnyddio fel y bydd anghenion ychwanegol yn codi. Cyn belled â bod y taliad yn cael ei ddefnyddio i gyflawni canlyniadau personol y derbynnydd, nid oes angen i batrwm wythnosol y gofal a'r cymorth gael ei bennu ymlaen llaw.

I ddod o hyd i ffynonellau gwybodaeth ar daliadau uniongyrchol, ymwelwch â;

https://northwalestogether.org/direct-payments/

https://socialcare.wales/service-improvement/direct-payments-a-guide

https://www.dewis.wales/using-direct-payments

https://www.citizensadvice.org.uk/wales/family/looking-after-people/direct-payments-w/

Diolch i Mark Cooper, arweinydd Taliadau Uniongyrchol Cyngor Sir y Fflint am helpu i ddatblygu'r crynodeb hwn.

Datblygwyd mewn partneriaeth â Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan.

- ## Sir y Fflint

  Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion - Rhif Ffôn Un Pwynt Mynediad: **03000 858858**
  E-bost: **spoa@flintshire.gov.uk**

- ## Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

  Rhif Ffôn y Prif Gyswllt: **01352 701000**

- ## Cysylltiadau Wrecsam

  Gallwch gysylltu â ni gydag ymholiadau cyffredinol ynghylch gofal cymdeithasol i oedolion drwy anfon e-bost at contact-us@wrexham.gov.uk neu drwy ffonio **01978 292066**

- ## Un Pwynt Mynediad i Blant

  **SPOAchildren@wrexham.gov.uk**

  (SPoA) ar **01978 292039** yn ystod oriau swyddfa arferol.

- ## Un Pwynt Mynediad Conwy

  Oedolion -

  Ffoniwch ni: **0300 456 1111**, rhwng dydd Llun a dydd Gwener Anfonwch e-bost atom ni: **lles@conwy.gov.uk**

  Anfonwch neges destun atom ni (ar gyfer ymholiadau cyffredinol yn unig): **07797 870 361**

  Plant a Theuluoedd -

  siaradwch â'r Swyddog ar Ddyletswydd ar **(01492) 575111**

- ## Sir Ddinbych

  Gallwch gysylltu â'r tîm Un Pwynt Mynediad i gael cymorth neu gyngor drwy:

  ffonio **0300 4561000** rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng.

  10am a 4pm ar benwythnosau a Gwyliau'r Banc (oni bai am Ddiwrnod Nadolig a Sul y Pasg).

- ## Gwynedd

  Dulliau Cysylltu Oedolion

  **01286 682888**

  Rhif ffôn Plant: **01758 704455** (9:00 - 17:00, Llun - Gwener)

  Rhif ffôn y tu allan i oriau: **01248 353 551** (unrhyw amser arall a Gwyliau'r Banc)
  E-bost: **cyfeiriadauplant@gwynedd.llyw.cymru**

- ## Ynys Môn

  Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

  Rhif ffôn: **(01248) 752752** neu **(01248) 750057**

  Gwasanaeth cynhwysol am ddim i deuluoedd ar Ynys Môn ac Un Pwynt Mynediad yw Teulu Môn. Ffoniwch ni ar 01248 725 888 o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng

  8.45am a 5pm.

  Gofynnwch am Teulu Môn.



Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*